# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 14EG TACHWEDD, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Ffion Elain Evans**

**ffionelainevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 6 Tachwedd 2023)

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Olaf Cai Larsen
Gwynfor Owen
Arwyn Herald Roberts
Sedd Wag - Plaid Cymru

Linda Ann Jones
Edgar Wyn Owen
Llio Elenid Owen
Beca Roberts

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Eryl Jones-Williams
John Pughe

Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

## Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman.

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 15fed o Fehefin 2023, fel rhai cywir.

**5. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL** 7 - 18

I ofyn i'r Pwyllgor am eu sylwadau er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**6. BLAENORIAETHAU'R PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH - DIWEDDARIAD** 19 - 22

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth..

**7. FFRAMWAITH CEFNOGAETH I AELODAU** 23 - 33

Ystyried yr adroddiad.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH, 15/6/23

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Dewi Owen (Cadeirydd), Anwen J. Davies, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Anne Lloyd-Jones, Edgar Wyn Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe, Arwyn Herald Roberts a Beca Roberts.

**Swyddogion:** Ian Jones (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol / Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sian Ellis Williams (Swyddog Dinesig a Gwasanaethau Democratiaeth), Ffion Elain Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Menna Trenholme (Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer eitemau 6 & 7:**
Catrin Love (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol) a Cara Williams (Swyddog Datblygu Aelodau).

## 1. PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigwyd ac eiliwyd dau enw ar gyfer yr is-gadeiryddiaeth sef y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts a'r Cynghorydd John Pughe.

**PENDERFYNWYD penodi y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts yn is-gadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar gyfer y flwyddyn 2023/24.**

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Gwynfor Owen a'r Cynghorydd Stephen Churchman.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2023, fel rhai cywir.

## 6. BLAENORIAETHAU PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH – DIWEDDARIAD

Cyflwynwyd yr eitem fel dilyniant i adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth gan ganolbwyntio ar ddau o'r pedwar maes blaenoriaeth a nodwyd fel rhan o'r adroddiad hwnnw: sgyrsiau datblygiad personol a chyngor di-bapur. Eglurwyd bod gwaith eisoes wedi ei ddechrau ar geisio sicrhau fod y cyngor yn symud i fod mor ddi-bapur a phosib, a hynny er mwyn lleihau ôl troed carbon a lleihau costau argraffu a phostio, yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn. Y bwriad yw ceisio symud i fod mor ddi-bapur a phosib o gychwyn tymor yr Hydref gan gydnabod bod newid arferion yn gallu cymryd amser ac yn gallu bod yn heriol i ddechrau.

Nodwyd na fydd newid o'r math yn digwydd dros nos a phwysleisiwyd y bydd cefnogaeth ac arweiniad ar gael i dywys y cynghorwyr drwy'r newid graddol hwn. Y bwriad yw cynnig sgriniau i gynghorwyr sydd heb dderbyn rhai yn barod yn ogystal â chynnig cyfle i gynghorwyr drefnu hyfforddiant 1:1 ar sut i ddefnyddio cyfarpar TG. Nodwyd y bydd eithriadau yn debygol o fod i'r rheolau a thrwy ymgymryd â'r newid yn raddol, gellir sicrhau y bydd cyfle i gynghorwyr gysylltu a chyflwyno tystiolaeth er mwyn cyfiawnhau pam y dylent gael eu heithrio a pharhau i dderbyn copïau papur.

Materion a godwyd yn ystod y drafodaeth:-

- Mewn ymateb i'r adroddiad, cyfeiriodd ambell i gynghorydd at eu sefyllfa bersonol gan nodi pam y byddai rhaid iddynt barhau i dderbyn copïau papur. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth nad cyfle i drafod sefyllfaoedd personol oedd y cyfarfod ond drwy gyflwyno'r newid yn raddol gellir rhoi ystyriaeth i sefyllfaoedd personol cynghorwyr unigol.
- Ategodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod cyfle ar gael i aelodau drefnu sesiwn gyda Swyddog Datblygu er mwyn ateb unrhyw bryderon sydd ganddynt a gofynnodd i'r aelodau rannu'r genadwri am y sesiynau ymhlith eu cyd-aelodau. Nododd bod swyddogion y cyngor eisoes wedi gwneud y newid i fod mor ddi-bapur a phosib ac yn gweld budd i hynny.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR A DIOGELU CYNGHORWYR

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith fel diweddariad o'r hyn sydd ar gael fel cefnogaeth i gynghorwyr. Tynnwyd sylw at y Fewnrwyd Aelodau, sy'n ffynhonnell gynhwysfawr o gefnogaeth i gynghorwyr, y bwletin aelodau sy'n cynnwys eitem fisol ar lesiant cynghorwyr, a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i gynghorwyr. Nodwyd bod y niferoedd sy'n mynychu'r sesiynau hyfforddiant yn isel a gofynnodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith i'r aelodau rannu'r wybodaeth am y cyfleoedd hyfforddiant gyda'u cyd-aelodau.

Materion a godwyd yn ystod y drafodaeth:-

- Nodwyd bod y pecyn diogelwch sydd gan gynghorwyr wedi gwella o'i gymharu â'r sefyllfa ychydig flynyddoedd yn ôl ond bod lle i barhau i ddatblygu a chynyddu'r pecyn.
- Cyfeiriodd ambell gynghorydd at y modd y mae'n rhaid i gynghorwyr fod yn groendew wrth ddelio gyda'r cyhoedd allan yn eu wardiau a bod sylwadau gan aelodau'r cyhoedd yn gallu bod yn eithafol ar adegau.

- Nodwyd bod cynghorwyr wedi hen arfer derbyn beirniadaeth gan aelodau'r cyhoedd ond bod y sefyllfa wedi gwaethygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Dadleuwyd bod y cyhoedd yn llawer mwy parod i herio pethau erbyn heddiw a bod hyn yn cael ei amlygu gan faterion cyfoes.
- Cyfeiriwyd at y modd y mae defnydd o gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'r feirniadaeth ar gynghorwyr. Gofynnwyd a oes modd i'r cyngor wneud unrhyw beth i helpu cynghorwyr sy'n derbyn negeseuon cas ac anwir gan gyfrifon â ffugenwau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth y byddai'n anodd i'r cyngor ymyrryd yng nghyd-destun negeseuon personol, penodol ond y byddai'n bosib anfon negeseuon cyffredinol yn erbyn y math yma o ymddygiad.
- Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod y pecyn diogelwch sydd ar gael i gynghorwyr yn ceisio mynd i'r afael a'r gwahanol elfennau a bod angen i'r cynghorwyr sicrhau eu bod yn tynnu sylw swyddogion y cyngor at y pethau sy'n eu pryderu.
- Ategodd y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth bod angen i gynghorwyr adrodd unrhyw beth sy'n peri pryder iddynt er mwyn i'r cyngor allu ymateb a chymryd y camau priodol. Nododd bod y cyfarfod hwn yn gyfle gwerthfawr i adnabod y gwahanol bryderon a'r risgiau sy'n wynebu cynghorwyr ac yn gyfle i ddatblygu asesiad risg mwy cyflawn.
- Rhoddwyd canmoliaeth i gefnogaeth y Tîm Democratiaeth a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yh a daeth i ben am 1.50yh.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 14 Tachwedd 2023 |
| **Pwnc** | Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am sylwadau er mwyn llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae 'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi adroddiad drafft ym mis Hydref yn flynyddol. Mae'n amlinellu'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Cyhoeddwyd y drafft ddiwedd mis Hydref 2023 yn amlinellu'r newidiadau a fwriedir ar gyfer blwyddyn Ariannol 2024-25. Mae cyfle i ymateb i'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno erbyn 8fed o Ragfyr, 2023. Eleni maent wedi llunio rhestr o gwestiynau penodol i'w hateb fel rhan o'r ymgynghoriad.

2. Bydd y newidiadau drafft, petaent yn dod i rym yn cael eu cyhoeddi erbyn 28 Chwefror 2024 ac yn weithredol ar gyfer blwyddyn Ariannol 2024-25.

**Rôl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

3. Cyfrifoldeb y Panel yw gosod lefelau cyflogau Cynghorwyr Cymru, ac mae eu rôl yn hollol annibynnol. Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi mynegi'n gyson ac yn gadarn nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddi-gost a bod angen rhoi gwerth iddynt os ydym am alluogi i bawb gymryd rhan. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog unigolion i dderbyn cydnabyddiaeth tâl i sicrhau y gall pobl o bob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn hyderus yn ein democratiaeth.

4. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried goblygiadau ariannol ei benderfyniadau. Mae'r Panel wedi gofod ceisio cydbwyso y ddwy elfen ochor yn ochor yn flynyddol wrth wneud ei benderfyniadau.

**Prif Benderfyniadau'r Panel sy'n berthnasol i'r Cyngor**

5. Mae copi llawn o'r adroddiad ar ei ffurf drafft i'w gael ar y ddolen isod. [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol drafft 2024 i 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU]

6. Noder fod y Panel wedi newid eu dull o adrodd yn ddiweddar, gan adrodd ar y newidiadau yn unig yn eu adroddiadau blynyddol. Gall hyn fod yn anodd i'w ddilyn ar adegau gan fod angen mynd yn ol i adroddiadau blynyddoedd blaenorol i ddeall y sefyllfa'n llawn ar gyfer ambell fater pan adroddir 'ni fu unrhyw newidadau eraill'. Mae'r Panel wedi cydnabod fod angen edrych ar hyn eto.

Tâl ar gyfer Aelodau etholedig.

7. Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2024 i 2025.

8. Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025, ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr.

9. Y cyflog sylfaenol fydd **£18,666.** £17,600 yw'r taliad ar gyfer 2023/24.

Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.

10. Nid oes newid i'r niferoedd o uwch Gyflogau y gellir eu talu. 18 yw'r uchafswm o uwch gyflogau y gellir eu talu i awdurdodau Grwp B, sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd.

11. Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau Grwp B ar gyfer 2023-24.

| | Tâl cydnabyddiaeth tebygol ar gyfer 2024/25 | Tâl Cydnabyddiaeth ar gyfer 2023/24 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £18,666 | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £62,998 | £59,400 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £44,099 | £41,580 |
| Band 2: aelodau gweithredol | £37,799 | £35,640 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £27,999 | £26,400 |

| | | |
|---|---|---|
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £27,999 | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £22,406 | £21,340 |

12. Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap.  Mae penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff.

13. Mae'r lefel wedi ei osod ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

Pennaeth Dinesig £27,999 (£26,400 yn 2023/24)
Dirprwy Bennaeth Dinesig £22,406 (£21,340 yn 2023/24)

<u>Aelodau Cyfetholedig</u>

14. Eleni, mae'r Panel wedi rhoi sylw i faterion yn ymwneud â thaliadau ar gyfer Aelodau cyfetholedig (gweler "Penderfyniad 5" yn y ddogfen Ymgynghorol, er fod y teitl yn y ddogfen yn cyfeirio at daliadau a wneir i Aelodau etholedig).

15. Mae'r trefniadau cyfredol yn nodi y dylai Aelodau cyfetholedig gael cydnabyddiaeth Ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod, gyda swyddog perthnasol o'r awdurdod i benderfynu ar gyfanswm y diwrnodau y rhoddir cydnabyddiaeth Ariannol ar eu cyfer mewn blwyddyn a phennu amser rhesymol am baratoi ar gyfer cyfarfodydd.

16. Yn sgil newidiadau i arferion gwaith, megis cyfarfodydd briffio amlach ar lein ayyb mae'r panel wedi ystyried cynnig hyblygrwydd wrth dalu Aelodau cyfetholedig, gan gynnwys cyfradd yr awr fel a nodir yn Tabl 3 yr ymgynghoriad (copi isod)

17. **Tabl 3: Taliadau a wneir i Aelodau etholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub**

| Rôl | Taliad cyfradd fesul awr | Cyfradd talu hyd at 4 awr | Cyfradd talu 4 awr a throsodd |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau, a phwyllgorau Archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau Safonau sydd hefyd yn cadeirio fPwyllgorau Safonau ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref | £29.75 | £119 | £238 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aelodau cyffredin o Bwyllgorau Safonau, pwyllgor Craffu Addysg, Pwyllgor Craffu trosedd ac Anrhefn a Phwyllgor Archwilio | £26.25 | £105 | £210 |
| Cynghorwyr Cymuned a Thref sy'n Aelodau o Bwyllgorau Safonau Prif Gynghorau | £26.25 | £105 | £210 |

Costau eraill

18. Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob penderfyniad arall o 2023/24 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2024/25.

19. Dylid hefyd nodi fod yr adroddiad yn cyfeirio ar faterion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Cymuned ond ni ymhelaethir ar hynny yn yr adroddiad hwn.

Cwestiynau Ymgynghoriad

20. Mae 6 cwestiwn wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad (gweler **Atodiad A)**. Noder fod rhai cwestiynau penodol i'r ymgynghoriad uchod a rhai yn gofyn am farn ar gyfer penderfyniadau posib i'r dyfodol. Gofynnir am sylwadau ar y meysydd a ganlyn:

Cwestiwn 1. Cydbwysedd rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth Ariannol ddigonol i gynrychiolwyr?
Cwestiwn 2. Barn ar hyblygrwydd taliadau i Aelodau cyfetholedig
Cwestiwn 3. Arferion da ynghylch defnyddio pwerau'r Panel i annog mwy o deithio cynaliadwy ymhlith Aelodau.
Cwestiwn 4. Ymwybyddiaeth o hawliau Cynghorwyr am ad-daliadau a'r camau i wella hynny.
Cwestiwn 5. Cynghorau Tref a Cymuned
Cwestiwn 6. Barn am adroddiadau i'r dyfodol i gyfuno costau teithio a chynhaliaeth Aelodau yn hytrach nag fesul unigolyn.

**Argymhelliad**

21. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am

- sylwadau ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

## ATODIAD A

### Ymgynghoriad ar Adroddiad Drafft 2024 i 2025

Rydym yn croesawu adborth ar yr Adroddiad drafft hwn ac rydym wedi cynnwys rhai cwestiynau ychwanegol lle y byddem yn gwerthfawrogi clywed eich barn. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar **8 Rhagfyr 2023** a gallwch naill ai anfon eich sylwadau dros e-bost neu gwblhau'r ffurflen ar ein gwefan.

Mae croeso hefyd ichi gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

I ofyn am fersiynau printiedig o'r Adroddiad, anfonwch e-bost atom neu ysgrifennwch at:

Mae croeso hefyd ichi anfon sylwadau ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod.

I ofyn am fersiynau printiedig o'r Adroddiad, gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu at:

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Trydydd Llawr - Dwyrain
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Cwestiwn 1 - Cynyddu cydnabyddiaeth ariannol drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)**

Mae'r Panel yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn ystyriol o'n Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog amrywiaeth mewn cynrychioliaeth. Felly, rydym yn cynnig y dylid cynyddu eu cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog eu hetholwyr.

**A ydych chi'n credu bod y Panel wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr?Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Unrhyw sylwadau ychwanegol

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 2 – Hyblygrwydd lleol ar gyfer taliadau i unigolion cyfetholedig**

Mae'r Panel wedi cael tystiolaeth y byddai'n fwy costeffeithiol ac yn decach i roi hyblygrwydd o ran talu'r rhai sy'n aelodau cyfetholedig o bwyllgorau Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

**A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Unrhyw sylwadau ychwanegol

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3 – Annog teithio cynaliadwy**

Hoffai'r Panel sicrhau ein bod yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein penderfyniadau ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau mewn llawer o gyrff yng Nghymru sy'n annog teithio cynaliadwy ac rydym wedi cynghori y dylai aelodau etholedig, os oes modd, gael eu hannog i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

**A oes gennych unrhyw enghreifftiau da o arferion da neu syniadau eraill ynglŷn â sut y gallem ddefnyddio ein pwerau i annog mwy o deithio cynaliadwy ymhlith aelodau?**

| | |
|---|---|
| Oes | ☐ |
| Nac oes | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Unrhyw sylwadau ychwanegol

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4 – Ymwybyddiaeth o hawliau cynrychiolwyr**

Mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig lleol o'r taliadau y maent yn gallu eu hawlio. Hoffem glywed a yw hyn yn broblem sylweddol, ac os felly, byddwn yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhellach, drwy dargedu meysydd lle y gall hyn fod yn broblem.

**Nodwch pa fath o gorff rydych yn ei wasanaethu (dewiswch bob un sy'n gymwys):**

Prif Gyngor ☐
Cyngor Cymuned neu Gymuned Tref ☐
Awdurdod Tân ac Achub ☐
Awdurdod Parc Cenedlaethol ☐

**Beth yw eich statws?**

Aelod ☐
Aelod Cyfetholedig ☐
Arall ☐

**A ydych chi'n gwybod bod gennych hawl i rai neu bob un o'r canlynol?**

- Cydnabyddiaeth ariannol am eich rôl

Ydw ☐
Nac ydw ☐

- Pensiwn (prif gynghorau yn unig)

Ydw ☐
Nac ydw ☐

- Ad-daliad am dreuliau

Ydw ☐
Nac ydw ☐

- Ad-daliad am gyfrifoldebau gofalu

Ydw ☐
Nac ydw ☐

- Taliadau absenoldeb teuluol (Prif Gynghorau yn unig)

Ydw ☐
Nac ydw ☐

**Pa gamau y mae eich cyngor neu'ch awdurdod yn eu cymryd i sicrhau bod ei aelodau etholedig a'i aelodau cyfetholedig yn ymwybodol o'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt?**

**Cwestiwn 5 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref**

Mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref gyflwyno datganiad blynyddol o daliadau i'r Panel erbyn 30 Medi bob blwyddyn, a chyhoeddi hyn ar eu gwefan hefyd. Mae'r Panel wedi darparu templed o ffurflen i glercod ei defnyddio. Mae'r Panel wedi trafod ac ystyried newid y gofynion ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref wrth gyflwyno eu ffurflen datgan taliadau. Nod y Panel yw symleiddio gweinyddiaeth ac annog Cynghorau i sicrhau bod yr holl daliadau gorfodol yn cael eu gwneud i aelodau unigol.

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, bod angen i'r ffurflenni ddangos cyfanswm y symiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllwyd uchod. Dyna'r cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref, y lwfans traul cyfradd sefydlog o £52 a'r costau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn dod â'r rhain yn unol ag adrodd costau gofal a lwfansau cymorth personol.

A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol?

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Beth yw'r rhesymau dros eich barn?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer cyrff eraill**

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, rydym yn ystyried caniatáu cyfuno costau teithio a chynhaliaeth aelodau prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, a byddai gennym ddiddordeb yn eich barn.

**A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Beth yw'r rhesymau dros eich barn?

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 14 Tachwedd 2023 |
| **Pwnc** | Blaenoriaethau Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth – diweddariad |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Bu i mi adrodd fel rhan o'm adroddiad blynyddol cyntaf fod gennyf bedwar maes blaenoriaeth i dderbyn sylw yn ystod 2023/24. Maent wedi eu rhestru isod i'ch atgoffa
    - Diogelwch a chefnogaeth i Gynghorwyr
    - Sgyrsiau datblygiad personol (sesiynau ymgynghorol)
    - Edrych ar ein trefniadau craffu
    - Cyngor di-bapur

2. Bwriad yr adroddiad yw rhoi diweddariad i chi ar y meysydd blaenoriaeth. Er gwybodaeth, ni fyddaf yn adrodd ar yr elfen trefniadau Craffu i'r pwyllgor hwn gan mai trefniadau llywodraethiant sydd dan sylw ac felly angen adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Fodd bynnag, rydych eisoes yn ymwybodol o'r gweithdai a gynhaliwyd yn ddiweddar ble roedd cyfle i Gynghorwyr drafod ein trefniadau Craffu.

**Diogelwch a chefnogaeth i gynghorwyr**

3. Adroddwyd ar y camau sydd wedi eu cymryd eisoes gan y Cyngor i geisio ymateb i'r heriau sy'n wynebu Cynghorwyr o ran diogelwch a lles yng nhyfarfod diwethaf y pwyllgor. Mae sylw cyson yn cael ei roi i ddiogelwch Cynghorwyr, gan ein bod yn ymwybodol fod sefyllfaeodd gwahanol a heriol yn eich wynebu yn gyson. Mae disgwyliadau cymdeithas wedi newid ynghyd a natur gyffredinol mewn cymdeithas.

4. Rydych yn ymwybodol fod gwybodaeth am faterion diogelwch a lles ar y Mewnrwyd Aelodau, a bod diweddariad rheolaidd yn cael ei roi am y maes yn y Bwletin Aelodau. Yn ddiweddar iawn (mis Hydref), rhoddwyd gwahoddiad i'r holl Gynghorwyr ymuno mewn sesiynau ynghylch diogelwch ar lein gan Gymdeithas Llywodraeth Leol.

5. Fodd bynnag, rydym ar ddeall fod nifer o Gynghorwyr yn parhau i beidio bod yn ymwybodol o'r cyfoeth gwybdoaeth sydd ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau, ac nad oes sylw dyledus yn cael ei roi i'r bwletin Aelodau. Rydym yn derbyn y gall hyn fod yn adlewyrchiad o fywydau prysur Cynghorwyr, gyda Cynghorwyr yn holi am faterion diogelwch a lles pan fo'r angen yn codi. Fodd bynnag, mae'n ystyriaeth i aelodau'r pwyllgor sut y gellir sicrhau gwell defnydd o'r mewnrwyd Aelodau a'r bwletin wythnosol i Aelodau sy'n cyfathrebu negeseuon allweddol bwysig.

**Sesiynau Ymgynghorol**

6. Mae pob Aelod wedi derbyn gwahoddiad i fanteisio ar Sesiwn Ymgynghorol.

7. Mae pawb yn wahanol, gyda chryfderau amrywiol ac ystod eang o anghenion datblygol. Efallai nad yw'r unigolyn yn siwr pa fath o ddatblygiad sydd arnynt ei angen, na chwaith beth sydd ar gael.

8. Bydd sgwrs anffurfiol gydag arbennigwr o'r maes Dysgu a Datblygu yn gyfle i chi drafod eich rôl fel Aelod, gan ystyried y pethau sy'n dod yn hawdd i chi, y pethau sy'n heriol ac efallai yn peri pryder, a'ch dyhead ar gyfer y dyfodol. Bydd hefyd yn gyfle i drafod sut yr hoffech ddysgu – beth sy'n eich siwtio chi?

9. Deilliant y sesiwn fel arfer yw Cynllun Datblygu Personol (rhaglen wedi ei theilwra i chi) gydag amrediad o elfennau Dysgu a Datblygu. Gall hefyd arwain at faterion cyffredinol y gellid eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddiant corfforaethol lle mae'r holl Gynghorwyr yn elwa o'r hyfforddiant.

10. Yn gyfredol dim ond 3 sydd wedi mynychu. Awgrymir eich bod yn cysylltu gyda'r Swyddog Datblygu Aelodau (Cara Williams) i drefnu Sesiwn Ymgynghorol os nad ydych wedi elwa hyd yma.

**Cyngor di-bapur**

11. Adroddwyd i'r cyfarfod diwethaf ar y camau roeddem yn bwriadu eu dilyn er mwyn symud at fod yn Gyngor di-bapur. Dros gyfnod yr haf a chychwyn mis Medi cynhaliwyd nifer o sgryrsiau gyda Chynghorwyr unigol.

12. Bellach, mae nifer o Gynghorwyr
    - wedi archebu sgriniau ychwanegol er mwyn eu cynorthwyo yn eu gwaith.
    - Rhai wedi trefnu sesiynau hyfforddiant penodol gyda swyddog o'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i ddeall y cyfarpar yn well
    - y Cynghorwyr rheiny sydd wedi datgan anghenion meddygol yn parhau i dderbyn copiau papur,
    - rhai Cynghorwyr eraill yn derbyn copiau papur mewn sefyllfaeodd penodol yn sgil eu rôl.

13. Yn ogystal, trefnwyd fod swyddogion o'r Gwasanaeth TG ar gael ar ddiwrnod y Cyngor Llawn ddiwedd Medi i ateb cwestiynau os oedd materion yn codi. Ni fu diddordeb yn y sesiynau hyn.

14. Hoffwn eich atgoffa fod modd i chi gysylltu os ydych yn dymuno derbyn sgrin ychwanegol, a threfnu slot hyfforddiant 1:1 ar amser sy'n gyfleus i chi.

15. Rwy'n cydnabod ei bod wedi bod yn gyfnod anodd wrth addasu, ac rwy'n ddiolchgar i bawb am eich cyd-weithrediad wrth yrru'r newid yma yn ei flaen.

**Datblygiadau eraill**

16. Rydym yn parhau i yrru ar welliannau yn gyson, ac mae materion ychwanegol i'r rhestr o flaenoriaethau uchod yn derbyn sylw yn gyson.

17. Yn ystod cyfnod yr haf gwnaethpwyd newidiadau i'r system sain yn Siambr Hywel Dda yn sgil sylwadau gan Gynghorwyr ei bod yn anodd clywed rhai unigolion ar adegau. Mae'r sain yn sicr wedi gwella yn y Siambr yn sgil y newidiadau hyn, ond cofiwch fod camau eraill sy'n gwneud gwahaniaeth:

- Dylid gwisgo clustffonau gyda meic wrth ymuno o bell er mwyn cynorthwyo i sicrhau sain cliriach yn y Siambr
- Mae sicrhau cyswllt gwifren wrth ymuno o bell yn sicrhau gwell cyswllt ac hefyd yn cynorthwyo gyda'r lefel sain
- Gall Aelodau yn y Siambr wisgo clustffonau sy'n eu galluogi i addasu lefel y sain yn bersonol yn y Siambr
- Wrth gymryd rhan, mae siarad yn araf ac yn bwyllog i'r meicroffon yn hwyluso'r sefyllfa hefyd.

18. Rydym yn parhau i gynnal ein rhaglen hyfforddiant yn cynnig amrywiol gyfleon i chi fel Cynghorwyr gymryd mantais ohonynt. Ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor mae'r sesiynau a ganlyn wedi eu trefnu a'u cynnal gan y Gwasanaeth Dysgu a datblygu. Noder hefyd y nifer o'r Cynghorwyr sydd wedi mynychu pob sesiwn.

| DIGWYDDIAD | MYNYCHWYR (Niferoedd) |
|---|---|
| Ymwybyddiaeth iechyd meddwl a hunanladdiad | 14 |
| Cyfarwyddyd Erthygl 4 : Sesiwn codi ymwybyddiaeth : | 30 |
| Hyfforddiant Data 101 : Cyflwyniad I ddeall a defnyddio data (Data Cymru) | 4 |
| Sipsiwn a Theithwyr : Hyfforddiant Sensitifrwydd Diwylliannol | 13 |

| | |
|---|---|
| Siarad yn Gyhoeddus | 5 (lle I 6 ar y cwrs) |
| Pendantrwydd | 10 |
| Recriwtio yn maes gofal | 15 |
| Hyfforddiant I Gadeiryddion ac Is Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ar ystyriaethau cyfreithiol. | 5 |
| Adran Oedolion – Gweithio gyda'n gilydd I sicrhau canlyniadau da I bobl Gwynedd | 19 |
| Troseddu Cyfundrefol – Llinellau Sirol | 11 |
| | |

19. Mae'r niferoedd sy'n mynychu yn amrywio fesul sesiwn a phwnc. Byddwn yn adrodd ar yr uchod i'r cyfarfod hwn yn gyson i'r dyfodol.

20. Cyflwynir adroddiad ar y rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2024/25 i gyfarfod mis Chwefror o'r pwyllgor.

**Argymhelliad**

21. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 14 Tachwedd 2023 |
| **Pwnc** | Hunan asesiad – Cefnogi a Datblygu Aelodau |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am eu sylwadau ar yr ymateb i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf yng Ngwynedd. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith. |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae sicrhau cefnogaeth a datblygiad i Gynghorwyr wedi bod yn allweddol bwysig yng Nghyngor Gwynedd erioed, ac rydym yn ceisio sicrhau ein bod yn anelu at y safonau uchaf yn barhaus.

2. Wrth ymgeisio at y safonau uchaf, rydym wedi cydweithio a chymharu gydag awdurodau eraill, wedi elwa a dysgu o'u profiadau, ac yn parhau i wneud hynny trwy gymorth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

3. Bron i ugain mlynedd yn ôl bu i GLlLC ddatblygu Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, siarter oedd yn rhoi arweiniad a disgwyliadau ar y gefnogaeth mwyaf addas i Gynghorwyr.  Mae'r Siarter wedi ei addasu dros y blynyddoedd, ond yn ddiweddar cynhaliwyd adolygiad llawn gan y GLlLC, gan gydnabod bod bellach angen fframwaith gwahanol sy'n adlewyrchu dull mwy blaengar o wella.  Ar yr un pryd mae angen i'r fframwaith adlewyrchu deddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru, canllawiau statudol a chanllawiau eraill ac hefyd gydnabod yr adnoddau cynyddol gyfyngedig sydd ar gael gan gynghorau.

4. Mae'r cynnig newydd yn symud oddi wrth angen mwy biwrocrataidd y gorffenol i gyflwyno tystiolaeth o gyflawniad fesul maes penodol.  Bellach, mae'r Fframwaith Hunanasesu gwirfoddol yn cynnig meysydd gwahanol y gall gwahanol Gynghorau ganolbwyntio arnynt gan hunan arfarnu eu perfformiad ac adnabod risgiau a gwelliannau sydd am wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r gefnogaeth i Gynghorwyr fesul Cyngor unigol.

5. Mae dogfen ymgynghori wedi ei datblygu gan GLlLC, gyda chyfle i gynnig sylwadau hyd ddiwedd mis Hydref, 2023.  Fodd bynnag, rydym wedi sicrhau cyfle i gyflwyno sylwadau ychwanegol pe dymunir yn dilyn y dyddiad cau.

CYNNWYS Y DDOGFEN DDRAFFT

6. Mae’r ddogfen ddrafft wedi ei chynnwys yn **Atodiad A** ac fe welir fod tri prif faes yn derbyn sylw, sef Democratiaeth, y Gymuned a Dysgu. Fesul maes, mae cwestiynau penodol y gallai’r Cyngor ddewis ymateb iddynt neu geisio ymgyrraedd atynt.

7. Mae ymateb cryno i’r ymgynghoriad, a ddarparwyd gan swyddogion Gwynedd wedi ei gynnwys yn **Atodiad B** er gwybodaeth. Gofynnir i’r pwyllgor a oes unrhyw sylwadau pellach ar yr ymateb i’r ddogfen.

CAMAU PELLACH

8. Gan fod Cyngor Gwynedd yn ymfalchio mewn ceisio sicrhau fod y gefnoaeth a’r datblygiad cywir yn cael ei gyflwyno i Gynghorwyr, rydym yn awyddus iawn i fod yn cynllunio i symud y gwaith hwn yn ei flaen yn dilyn derbyn y Fframwaith derfynol.

9. Argymhellir fod grwp bach o aelodau’r Pwyllgor yn cwrdd i asesu’r canlynol o’r fframwaith defynol

   - A yw’r Cyngor yn gyfrifol am y maes neu peidio
   - perfformiad cyfredol y Cyngor yn erbyn disgwylidau y fframwaith
   - a yw’n flaenoraieth gan y Cyngor
   - a oes camau gwella posib.

10. Gall y camau uchod arwain wedyn at adnabod rhaglen waith o welliannau wedi eu blaenoriaethu o’r meini prawf yn y ddogfen derfynol. Gan nad yw’r ddogfen derfynol i law ar hyn o bryd, gofynnir i’r Pwyllgor sefydlu’r egwyddor uchod i weithredu. Byddwn yn adrodd nol ar amserlen a gofyn am wirfoddolwyr maes o law.

**Argymhelliad**

11. Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

**O Siarter i Hunanasesiad, Datblygiad Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau**

**Ymgynghoriad mis Gorffennaf 2023**

**Cefndir**

Ugain mlynedd yn ôl, roedd cefnogaeth a datblygiad i gynghorwyr yng Nghymru yn llai sefydledig nag y mae heddiw. Yn 2002, bu tîm gwella cyntaf CLlLC (Syniad bryd hynny) yn gweithio gyda phob cyngor a grŵp trawsbleidiol o gynghorwyr i nodi pa gymorth pellach a chyfleoedd hyfforddi a fyddai'n ddefnyddiol i gynghorwyr. Dywedodd y cynghorau y dylid cytuno ar arferion da yn y maes hwn, eu disgrifio, a'u lledaenu.

Mewn ymateb i'r cais hwn, ac yn unol ag arfer ehangach y DU, cafodd Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ei datblygu ar y cyd gan CLlLC a chynghorau i:

- ddarparu fframwaith arfer da ar draws Cymru,
- bod yn gymhelliant i gynghorau roi'r gefnogaeth a'r datblygiad angenrheidiol i'w cynghorwyr, a
- rhoi sicrwydd i gynghorwyr eu bod yn cael y gefnogaeth orau bosibl.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r Siarter wedi'i datblygu ymhellach ac mae'n allweddol o ran galluogi a chydnabod arfer da lleol. Mae mwyafrif y cynghorau, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub wedi cael y Siarter, tra bod eraill wedi ei defnyddio fel fframwaith i nodi arfer da a gwirio bod ganddynt fecanweithiau cefnogi effeithiol ar waith.

Ers cychwyn y Siarter, mae tirwedd llywodraeth leol wedi newid yn sylweddol. Mae rôl cynghorwyr wedi dod yn fwy heriol ac amrywiol fyth. Mae adnoddau'n brin ac mae'r ffyrdd o weithio ar ôl Covid yn dra gwahanol. Mae gan gynghorau bellach ddulliau mwy soffistigedig a sefydledig o roi cefnogaeth i gynghorwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth gyda chanllawiau statudol i gynghorwyr a gwasanaethau democrataidd. Mae'r dirwedd wella hefyd wedi datblygu. Yn 2021-22 lansiwyd Rhaglen Wella newydd i gefnogi gwelliant a arweinir gan y sector ar draws llywodraeth leol yng Nghymru. Mae arweinwyr a phrif weithredwyr wedi mynegi ymrwymiad i welliant a arweinir gan y sector, wedi'i ategu gan her, cefnogaeth a chymorth cydfuddiannol gan gyfoedion.

Yn y cyd-destun hwn, adolygwyd y Siarter gan CLlLC a chynghorau a gynrychiolir gan eu Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd. Er bod y Siarter wedi darparu fframwaith ar gyfer arfer da, ysgogiad a chydnabyddiaeth o gefnogaeth i gynghorwyr yn y gorffennol, rydym yn cydnabod bod bellach angen fframwaith gwahanol sy'n adlewyrchu dull mwy blaengar o wella a arweinir gan y sector, deddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru, canllawiau statudol a chanllawiau eraill sy'n cydnabod yr adnoddau cynyddol gyfyngedig sydd ar gael gan gynghorau.

**Fframwaith Hunanasesu Cefnogi Cynghorwyr.**

**Cynnig**

Rydym yn cynnig y dylid disodli'r Siarter bresennol gan fframwaith hunanasesu gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar y gefnogaeth a ddarperir i gynghorwyr gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar eu cymunedau. Nod y fframwaith yw ymdrin â phob agwedd ar arfer da o ran cefnogi cynghorwyr. Fodd bynnag, gan fod blaenoriaethau ac adnoddau'n amrywio rhwng cynghorau, mater i gynghorau'n lleol fyddai faint o'r fframwaith i'w ddefnyddio a pha adrannau y dylid eu blaenoriaethu.

Byddai'r fframwaith yn cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddorion canlynol:

**1. Nodau'r fframwaith**

- Rhoi sicrwydd i gynghorau bod cynghorwyr yn cael y gefnogaeth, y wybodaeth, yr arweiniad a'r datblygiad sydd eu hangen i'w galluogi i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'w cymunedau.
- Darparu fframwaith cenedlaethol uchelgeisiol ond pragmatig o arfer da sy'n cydnabod gofynion deddfwriaethol, canllawiau statudol a chanllawiau eraill, yr anghenion a fynegwyd gan gynghorwyr ac enghreifftiau a dderbynnir yn gyffredinol o'r hyn sy'n gweithio.

**2. Egwyddorion ar gyfer datblygu**

- Datblygu'r fframwaith ar y cyd â chynghorau, CLILC a budd-ddeiliaid eraill i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ac yn adlewyrchu dyheadau cenedlaethol.
- Datblygu fframwaith sy'n gweithio gyda'r rhaglen ehangach ar gyfer gwella a hunanasesu yng Nghymru, gyda'r potensial i'w ddatblygu fel rhan o'r rhaglen adolygu gan gymheiriaid os oes angen. Efallai y bydd cynghorau'n penderfynu y dylai'r hunanasesiad hwn gael ei arwain gan bwyllgorau gwasanaethau democrataidd.
- Datblygu fframwaith sy'n adlewyrchu anghenion pob cynghorydd waeth beth fo'i blaid wleidyddol neu statws annibynnol.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer rhannu arferion rhwng cynghorau.

**3. Cwmpas y fframwaith**

Byddai'r fframwaith yn cwmpasu:

- cefnogaeth a datblygiad i gynghorwyr yn yr ystyr ehangaf i ymgorffori cefnogaeth gan y cyngor cyfan. Gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, er enghraifft, gwasanaethau democrataidd, timau cyfreithiol, digidol, cyfathrebu, dysgu a datblygu, a chyfarwyddiaethau yn eu cefnogaeth ar gyfer craffu, y bwrdd gweithredol a chynghorwyr rheng flaen,
- anghenion pob cynghorydd cyn etholiad, fel aelodau newydd ac fel gwleidyddion profiadol,
- holl rolau cynghorydd yn y cyngor ac yn y gymuned,
- cefnogaeth bersonol a 'phroffesiynol' i gynghorwyr o fewn dylanwad cynghorau a'r
- disgwyliadau a osodir ar gynghorau, swyddogion, a chynghorwyr eu hunain.

**4. Cyd-destun**

Bydd y fframwaith yn ystyried, er enghraifft: Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, y Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol, Arolygon Ymadael CLlLC, arolwg Llywodraeth Cymru o gynghorwyr, Menter Gwarineb mewn bywyd cyhoeddus, Canllawiau LlC ar gyfer Prif Gynghorau a'r fframwaith gwella a hunanasesu llywodraeth leol sy'n dod i'r amlwg.

**5. Fframwaith enghreifftiol ar gyfer trafodaeth**

Mae’r fframwaith isod yn seiliedig ar y nodau a’r egwyddorion arfaethedig ac yn cael ei gynnig fel man cychwyn ar gyfer trafodaethau rhwng yr holl fudd-ddeiliaid. Gwahoddir cynghorau i roi sylwadau ar addasrwydd y fframwaith fel dogfen sylfaen genedlaethol ar y cyd, y gall cynghorau ei defnyddio i ddatblygu eu dull eu hunain o hunanasesu gan gydnabod eu hanghenion a’u blaenoriaethau lleol.

| **Democratiaeth** | **Canlyniadau a geisir:**<br>• **Mae pobl yn cael eu hannog a'u galluogi i sefyll fel cynghorwyr.**<br>• **Mae cynghorwyr yn deall eu rôl ac yn ei chyflawni'n effeithiol ac yn foesegol.**<br>• **Gall cynghorwyr gymryd rhan gyfartal ym musnes y cyngor.**<br>• **Mae cynghorwyr yn cael y gefnogaeth, y wybodaeth, a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt.**<br>• **Mae cynghorwyr yn cynrychioli amrywiaeth y bobl y maent yn eu gwasanaethu.**<br>• **Mae cynghorwyr yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed.** |
|---|---|
| **Thema** | **Cwestiynau i'w gofyn** |
| **Ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr** | A yw'r cyngor yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr i ddarpar ymgeiswyr ac ymgeiswyr swyddogol am rôl y cynghorydd, y cyngor ac unrhyw gyfrifoldebau a buddion cysylltiedig?<br>A yw’r ymagweddau at allgymorth i ddarpar ymgeiswyr a’r wybodaeth ar eu cyfer yn cael eu gwneud yn unol â’r angen i annog amrywiaeth mewn ymgeiswyr ac yn cael eu llywio gan Ddatganiad Amrywiaeth y cyngor?<br>A yw'r cyngor yn cyfeirio darpar ymgeiswyr at wybodaeth a ddarperir gan LlC, CLlLC, y Comisiwn Etholiadol a sefydliadau eraill sy'n darparu gwybodaeth i ymgeiswyr?<br>A yw cynghorwyr, y cyngor a phleidiau lleol yn hyrwyddo mentrau ymgyrchu teg a pharchus?<br>A yw darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am gefnogaeth ar gyfer sefyll, fel y gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig?<br>A yw darpar ymgeiswyr yn cael gwybod am y disgwyliadau a osodir arnynt i gymryd rhan mewn cyfnod sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus, y bydd rhai ohonynt yn orfodol? |

| | |
|---|---|
| **Mae cynghorwyr yn deall eu rôl, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.** | A yw pob cynghorydd, pan gaiff ei ethol neu wrth gael ei ddewis ar gyfer swydd arbenigol, yn cael gwybodaeth ac arweiniad am bob agwedd ar ei rôl?<br>A yw pob aelod yn cael fframwaith cymhwysedd i ddeall y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar gynghorwyr?<br>A yw disgrifiadau rôl (gweler modelau CLlLC am enghreifftiau) wedi cael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y cyngor a chynghorwyr unigol wedi cytuno arnynt?<br>A yw cynghorwyr sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol wedi cael:<br>• arweiniad ar eu rôl a'u cyfrifoldebau,<br>• gwybodaeth gyfreithiol megis eu hatebolrwydd a buddiannau,<br>• esboniad o'r disgwyliadau a osodir arnynt gan eu cyngor enwebu,<br>• gofynion ar gyfer cyfathrebu â'r corff allanol ac adrodd yn ôl oddi wrtho? |
| **Safonau Ymddygiad** | A yw'r holl gynghorwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw at y cod ymddygiad lleol?  A ydynt wedi cael canllawiau lleol ac unrhyw wybodaeth gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?<br>A yw pwyllgorau safonau a chadeiryddion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol?<br>A yw arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn hyrwyddo ac yn cynnal safonau uchel o ymddygiad ac yn cydweithredu â'r pwyllgor safonau?<br>A yw'r holl gynghorwyr wedi ymrwymo'n ffurfiol i ymgymryd â phob agwedd ar eu rôl gyda chwrteisi a pharch tuag at ei gilydd, y cyhoedd a swyddogion ym mhob lleoliad a chyfrwng?<br>A yw achosion o fwlio, aflonyddu a bygwth yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithiol? |
| **Y Cyfansoddiad** | A yw pob cynghorydd yn deall y cyfansoddiad, gan gynnwys:<br>• rolau, cyfrifoldebau, a chyfyngiadau i rolau pwyllgorau,<br>• rôl cynghorwyr a swyddogion unigol,<br>• protocolau cynghorwyr / swyddogion,<br>• arfer o ran cyfarfodydd,<br>• archebion sefydlog,<br>• rheolau trafodaeth,<br>• ymgysylltu â'r cyhoedd,<br>• rolau yn y cyngor lle bernir bod hyfforddiant cynghorwyr yn orfodol? |
| **Cefnogaeth i Swyddogion** | A oes gan bob pwyllgor, panel, fforwm ac ati lefel briodol o gefnogaeth i swyddogion?<br>A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol yn eu gwaith cydweithredol a gwaith ar y cyd â chynghorau neu |

| | |
|---|---|
| | sefydliadau eraill, er enghraifft ar gydbwyllgorau corfforaethol?<br>A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi yn eu cymuned a'u gwaith achos?<br>A yw'r holl gynghorwyr yn cael y wybodaeth a'r ymchwil y mae ganddynt hawl i'w cael yn unol â gofynion y canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 8 (1A) Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011.<br>h.y. Mewn ymateb i geisiadau penodol ac yn rhagweithiol, mae'r holl gynghorwyr yn cael gwybodaeth, data, briff a hyfforddiant yn ymwneud â'u penderfyniadau, gwaith pwyllgor, gwaith cymunedol a gwaith achos. Mae'r gwasanaeth hwn yn:<br>• darparu'n deg i bob aelod yn unol â phrotocol a gyhoeddwyd, sy'n cynnwys safonau ac amseroedd ymateb,<br>• eithrio gwybodaeth at ddefnydd plaid wleidyddol,<br>• darparu'n gyfrinachol lle bo angen a chan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data a chyfraith gwybodaeth arall,<br>• cael ei gyflawni gan y cyngor neu asiantaethau allanol,<br>• gymesur ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br>Mae pwyllgorau gwasanaethau democrataidd yn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol a bod ganddo adnoddau digonol.<br>A yw pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cael cymorth penodol gan swyddogion a all ddarparu ymchwil, cefnogaeth a chyngor diduedd?<br>A yw natur unrhyw wybodaeth gefnogol, gan gynnwys gwasanaethau ymchwil, wedi cael cyhoeddusrwydd clir a'i hesbonio i bob cynghorydd? |
| **Mynediad cyfartal** | A yw'r trefniadau a wneir ar gyfer busnes y cyngor yn hyblyg ac a ydynt yn galluogi i gynghorwyr gyfranogi'n llawn waeth beth fo'u hamgylchiadau personol?<br>A yw amseroedd, dulliau a lleoliadau cyfarfodydd yn adlewyrchu'r anghenion a fynegir gan gynghorwyr cymaint â phosibl?<br>A yw cynghorwyr yn cael mynediad cyfartal i gyfarfodydd heb ystyried unrhyw nodweddion gwarchodedig?<br>A yw'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad yn diwallu anghenion cynghorwyr?<br>A yw cynghorwyr a chyfranogwyr eraill y cyfarfodydd yn gallu defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn cyfarfodydd?<br>A yw amseroedd egwyl cynghorau yn adlewyrchu anghenion cynghorwyr sydd, er enghraifft, â chyfrifoldebau gofalu?<br>A yw trefniadau rhannu swydd ar gyfer aelodau cabinet yn cael eu cefnogi fel bod y llwyth gwaith yn glir ac yn briodol?<br>A oes mannau wyneb yn wyneb ar gael yn achlysurol ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol ar gais? |
| **Cefnogaeth ar gyfer hawliau, diogelwch a lles cynghorwyr** | A roddir arweiniad i gynghorwyr ar eu hawliau a'u buddion? Er enghraifft, cyflogau, absenoldeb teuluol, rhannu swydd ar gyfer aelodau'r pwyllgor gwaith / cabinet, lwfansau, treth |

| | |
|---|---|
| | a budd-daliadau, pensiynau, indemniadau, diogelu data a rhyddid gwybodaeth?<br>A yw cynghorwyr yn cael eu hannog yn frwd i gymryd y cyflogau a'r lwfansau y mae ganddynt hawl iddynt, a'u hannog i beidio â chymryd y lwfansau a'r cyflogau blaenorol?<br>A oes gan y cyngor ddyletswydd gofal anffurfiol ar waith sy'n dangos ymrwymiad rhagweithiol i ddiogelu iechyd a lles cynghorwyr? A oes cofnod ohono ac a yw ar gael i aelodau ei weld? A yw'n nodi natur unrhyw gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr, er enghraifft cwnsela a gwiriadau iechyd, a'r rhai sy'n gyfrifol am helpu cynghorwyr i gael mynediad at y gefnogaeth hon?<br>A roddir arweiniad i gynghorwyr ar gynnal eu lles a'u diogelwch personol? Er enghraifft, gweithio ar eich pen eich hun, bwlio ac aflonyddu.<br>A yw'r cyngor yn gweithredu'n rhagweithiol i gefnogi cynghorwyr sy'n cael profiad o fwlio ac aflonyddu, gan gynnwys cysylltu â'r heddlu os yw'n briodol? |
| **Amrywiaeth** | A yw Datganiad Amrywiaeth y cyngor wedi'i gytuno gan y Cyngor Llawn? A yw'n cael ei fonitro?<br>A yw'r Datganiad Amrywiaeth yn nodi'r camau y mae'r cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod cynghorwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu hannog i sefyll a chael swyddi cyfrifol lle bynnag y bo modd?<br>A yw cynghorwyr â gofynion mynediad arbennig yn cael eu cefnogi yn eu gwaith yn y cyngor a'r gymuned? |
| **Digidol** | A yw pob cynghorydd wedi cael yr offer neu'r cyllid i brynu'r offer, meddalwedd, apiau a'r cysylltedd sydd eu hangen i gyflawni eu rôl yn swyddfeydd y cyngor, gartref ac wrth deithio yn ardal y cyngor?<br>A yw'n cynnwys ffonau clyfar a gliniaduron/tabledi?<br>A ddarparwyd hyfforddiant llawn ar ddefnyddio offer a phecynnau? A oes cymorth technegol ar gael?<br>A yw cynghorwyr yn cael digon o gefnogaeth i fynd i gyfarfodydd aml-leoliad?<br>A yw cynghorwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol drwy ganllawiau ar sut i'w defnyddio a diogelwch ar-lein? |

| | |
|---|---|
| **Cymuned** | **Canlyniadau a geisir:**<br>• **Mae cynghorwyr yn arwain, cynrychioli, eirioli dros, a galluogi eu cymunedau.**<br>• **Mae cynghorwyr yn sicrhau bod adnoddau lleol ar gael ac yn cael eu defnyddio i'r eithaf.**<br>• **Mae cynghorwyr yn annog cyfranogiad dinasyddion ac arloesi.** |

| | |
|---|---|
| | • **Mae cynghorwyr yn gweithio gyda chymunedau i'w gwneud yn gynaliadwy ac yn wydn.** |
| **Thema** | **Cwestiynau i'w gofyn** |
| **Ymwybyddiaeth y cyhoedd** | A yw'r cyngor yn sicrhau bod y cyhoedd yn deall rôl a chyfrifoldebau cynghorwyr ac ASau lleol, ASau a chynghorwyr tref a chymuned?<br>A yw pobl yn gwybod pa haen o gynrychiolwyr y dylid cysylltu â nhw ar gyfer gwahanol faterion lleol?<br>A yw'r cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynghorwyr ac yn hyrwyddo eu gwerth i'r gymuned? |
| **Cymunedau yn cysylltu â chynghorwyr** | A oes systemau ar waith i drigolion lleol a grwpiau cymunedol gysylltu â'u cynghorydd ward lleol, a/neu gynghorwyr â rolau penodol, os yw'n briodol?<br>A yw'r systemau a'r safonau hyn ar gyfer eu cymhwyso wedi'u mynegi'n glir a'u cyhoeddi i'r cyhoedd a chynghorwyr? |
| **Cymorthfeydd a chyfarfodydd cymunedol** | A yw'r gefnogaeth a ddarperir gan y cyngor i gynghorwyr drefnu cymorthfeydd a chyfarfodydd cymunedol yn ddigonol?<br>A yw'r swyddogion perthnasol yn mynd i gyfarfodydd cymunedol ar gais cynghorwyr lle y bo'n briodol?<br>A yw maint y gefnogaeth sydd ar gael i gynghorwyr wedi'i fynegi'n glir i bob cynghorydd? |
| **Ymgysylltiad, arweinyddiaeth a chyd-gynhyrchu yn y gymuned** | A yw cynghorwyr yn cael eu hysbysu, eu cefnogi ac yn cael adnoddau i alluogi eu cymunedau i fod yn gynaliadwy ac yn wydn drwy, er enghraifft:<br>• ymgynghoriad cymunedol ffurfiol ac anffurfiol<br>• cydweithio gydag arweinwyr cymunedol i ddiwallu anghenion ar lefel leol,<br>• cyd-gynhyrchu polisïau a chamau gweithredu sy'n arwain at gymunedau llwyddiannus gyda phobl leol?<br>A yw'r gefnogaeth hon ar gyfer cynghorwyr wedi'i mynegi'n glir i bob cynghorydd? |
| **Cefnogaeth gwaith achos** | A oes systemau digonol ar waith i gefnogi cynghorwyr yn eu gwaith achos?<br>A yw'r gefnogaeth hon yn:<br>• darparu'n deg i bob aelod yn unol â phrotocol a gyhoeddwyd,<br>• eithrio gweithgareddau plaid wleidyddol,<br>• darparu'n gyfrinachol lle bo angen a chan roi sylw dyledus i gyfraith diogelu data a chyfraith gwybodaeth arall,<br>• gymesur ac yn cael ei ddarparu o fewn yr adnoddau sydd ar gael.<br><br>A roddir arweiniad i gynghorwyr ar reoli gwaith achos? Drwy systemau rheoli gwaith achos, er enghraifft. |
| Goruchwyliaeth a diogelwch | A oes gan y cyngor brotocolau clir ar waith ar gyfer sicrhau diogelwch personol a lles cynghorwyr, ac sydd wedi'u mynegi'n glir i gynghorwyr a'r cyhoedd? |

| | |
|---|---|
| | A yw disgwyliadau a hygyrchedd y gymuned yn cael eu rheoli fel na chysylltir â chynghorwyr yn amhriodol?<br>A roddir gwybodaeth ac arweiniad i gynghorwyr ar reoli eu perthynas â'r cyhoedd a chynnal ffiniau priodol? |

| **Dysgu** | **Canlyniad a geisir:**<br>**Mae gan gynghorwyr y sgiliau a'r wybodaeth i ddarparu'r hyn sydd ei angen ar bobl leol.** |
|---|---|
| **Themâu** | **Cwestiynau i'w gofyn** |
| **Strategaeth Datblygu Cynghorwyr** | A oes gan y cyngor ddull effeithiol a diffiniedig o ddatblygu cynghorwyr, sy'n cynnwys yr anghenion a fynegwyd gan bob cynghorydd ac anghenion y sefydliad a'r gymuned? |
| **Adolygiadau Datblygiad Personol** | A yw'r cyngor yn darparu cefnogaeth bersonol ddefnyddiol i bob cynghorydd ac adolygiadau datblygu a gynhelir gan bobl sy'n gymwys i wneud hynny? |
| **Rhaglen Dysgu a Datblygu** | A oes gan y cyngor raglen ddysgu a datblygu flynyddol sy'n cael ei hyrwyddo'n llawn i gynghorwyr?<br>A all pob cynghorydd gael mynediad cyfartal at y rhaglen?<br>A yw'r rhaglen yn cael ei monitro, ei gwerthuso a'i diweddaru'n rheolaidd?<br>A yw cynghorwyr yn gallu nodi canlyniadau cadarnhaol o'r hyfforddiant, fel gwell dealltwriaeth a pherfformiad a chanlyniadau penodol i'r gymuned? |
| **Rhaglen Sefydlu** | A yw pob cynghorydd newydd neu gynghorydd sy'n dychwelyd yn cael rhaglen sefydlu gynhwysfawr, aml-sesiwn, wedi'i blaenoriaethu, sy'n galluogi i gynghorwyr gyfranogi'n effeithiol yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn y swydd? |
| **Ansawdd Datblygiad** | A yw cynghorwyr yn credu bod y gweithgareddau dysgu yn ddigon ysgogol, perthnasol ac wedi'u darparu mewn arddulliau blaengar a phriodol?<br>A oes gan y cyngor ddull systematig ac effeithiol o gomisiynu, datblygu, darparu a gwerthuso ei weithgareddau hyfforddi a datblygu? |
| **Cyfranogiad** | A yw cynghorwyr yn manteisio ar yr holl gyfleoedd datblygu sy'n berthnasol iddynt?<br>A roddir sylw i unrhyw ddiffyg cyfranogiad? |
| **Dysgu oddi wrth eraill** | A yw cynghorwyr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu rhanbarthol a chenedlaethol a rennir?<br>A gaiff cynghorwyr eu hannog a'u cefnogi i gydweithio â chynghorau eraill a chyrff cenedlaethol i weithredu fel cymheiriaid gwleidyddol, mentoriaid ac mewn rhwydweithiau i rannu ymagweddau at rôl cynghorydd, nodi arfer da a chyfrannu at welliant a arweinir gan y sector? |

# YMGYNGHORIAD CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU

**FFRAMWAITH HUNAN ASESIAD CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU.**

(Ymgynghoriad Gorffennaf 2023)

YMATEB CYNGOR GWYNEDD

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y datblygiad o'r hen Siarter i gefnogi datblygiad Cynghorwyr i'r Hunanasesiad sy'n cael ei awgrymu bellach.

Rydym yn cydweld gyda'r egwyddorion cyffredinol ei bod yn amserol adolygu a diweddaru'r hen Siarter, gan adlewyrchu gofynion deddfwriaethol newydd ac yn arbennig lleihad capasiti a'r her ariannol sy'n wynebu pob un Cyngor.

Rydym yn hynod falch o weld symud o'r hen drefn biwrocrataidd o gasglu tystiolaeth a phrofi yr hyn oedd wedi cael ei gyflawni gan awdurdodau tuag at arfogi'r awdurdodau eu hunain i hunan arfarnu, adnabod eu blaenoriaethau gwella eu hunain, ac anelu at y newidiadau sydd am ddod a'r budd mwyaf i'r awdurdod unigol. Rydym yn croesawu fod hyn am roi rhyddid i'r awdurdodau weithio fesul cam trwy'r hunan arfarniad yn hytrach na phwyslais ar gyflawni'r cyfan.

Fodd bynnag, mae gennym rhywfaint o bryder ynghylch cynnwys a chwmpas y Fframwaith ei hun. Mae'n rhestr faith sy'n adlewyrchu'r byd delfrydol ac mae perygl iddo gael ei gam ddehongli fel gofynion penodol neu hawliau gan Aelodau. Mae rhai o'r gofynion y tu hwnt i ffiniau cyfrifoldeb Cynghorau lleol ac yn ymylu ar gyfrifoldebau grwpiau gwleidyddol (ee yng nghyd-destun darpar ymgeiswyr, rôl arweinyddion grwpiau gwleidyddol i gadw safonau) neu'r Cydbwyllgor Corfforedig (i gefnogi Cynghorwyr ar y cydbwyllgor), partneriaid eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (i fod yn esbonio i'r cyhoedd rôl a chyfrifoldebau Cynghoryr ac AS a chynghorwyr tref a chymuned) neu'r Cynghorwyr eu hunain o ran eu gwaith yn y wardiau. Gofynnir i GLlLC ystyried a oes modd gwahaniaethu rhwng isafswm y gofyn o fewn cyfrifoldebau Awdurdodau lleol a gofynion eraill.

Yn ogystal, mae angen sicrhau cyfieithiad cywir o'r ddogfen gan fod gwahaniaethau mewn ystyr ac/neu aneglurder rhwng y Gymraeg a'r Saesneg mewn ambell i fan (ee lefel briodol o gefnogaeth i swyddogion yn y fersiwn Gymraeg, lefel briodol o gefnogaeth gan swyddogion yn y fersiwn Saesneg).

Yn gyffredinol rydym yn croesawu'r symudiad yma os oes modd sicrhau fod eglurder mai gwirfoddol yw'r hunan asesiad, ac nad oes modd i bob awdurdod gyrraedd pob un o'r meini prawf yn llawn.